

BETH YW DYNEIDDAETH? – CWESTIYNAU AMLDDEWIS

Pa ddatganiadau isod fyddai dyneiddiwr yn fwyaf tebygol o gytuno â nhw?

<input type="radio"/>	1a) Mae dyneiddiaeth yn grefydd.
<input type="radio"/>	1b) Mae dyneiddiaeth yn fydolwg digrefydd
<input type="radio"/>	1c) Mae dyneiddiaeth yn fydolwg crefyddol.

<input type="radio"/>	2a) Esblygodd bodau dynol yn naturiol.
<input type="radio"/>	2b) Cafodd bodau dynol eu creu gan dduw.
<input type="radio"/>	2c) Gwnaeth bodau dynol ymddangos yn sydyn.

<input type="radio"/>	3a) Mae bodau dynol i gyd yn bechadurus a dim ond drwg y gallwn ni ei wneud.
<input type="radio"/>	3b) Dylai bodau dynol gael eu haddoli fel y mawrion ymysg pob peth byw.
<input type="radio"/>	3c) Mae gan fodau dynol y potensial i fyw bywydau da a hapus.

<input type="radio"/>	4a) Mae haen oruwchnaturiol arall i realiti y tu hwnt i'r byd naturiol.
<input type="radio"/>	4b) Mae'r byd yn lle naturiol ac nid oes unrhyw dystiolaeth na rheswm da dros gredu mewn unrhyw beth goruwchnaturiol (nac mewn duw).
<input type="radio"/>	4c) Dim ond breuddwyd yw'r byd o'n cwmpas.

<input type="radio"/>	5a) Gwyddoniaeth sy'n rhoi'r ffordd orau i ni ateb cwestiynau am y byd o'n cwmpas.
<input type="radio"/>	5b) Mae angen crefydd arnom ni i ateb rhai o'n cwestiynau am y byd.
<input type="radio"/>	5c) Y ffordd orau o ateb cwestiynau am y byd yw eu dyfalu.

<input type="radio"/>	6a) Ar ôl marw, bydd ein bywydau'n parhau mewn lle arall – dylem ni baratoi ar gyfer hyn.
<input type="radio"/>	6b) Dyma un o sawl bywyd y byddwn ni'n ei fyw – mae'r ffordd yr ydym ni'n byw nawr yn effeithio ar ein bywydau yn y dyfodol.
<input type="radio"/>	6c) Dyma'r unig fywyd sydd gennym ni – dylem ni wneud y gorau ohono yn y presennol, a chefnogi eraill i wneud yr un peth.

<input type="radio"/>	7a) Dim ond un ffordd gywir sydd o fyw ac mae'n rhaid i bob un ohonom ddilyn y llwybr cywir hwn.
<input type="radio"/>	7b) Dylem ni fod yn rhydd i ddewis sut yr ydym ni'n byw ar yr amod nad ydym ni'n achosi niwed i eraill.
<input type="radio"/>	7c) Dylem ni fod yn rhydd i wneud beth bynnag rydym ni'n ei ddymuno, dim ots am y canlyniadau.

<input type="radio"/>	8a) Dylem ni feddwl am ein pleser ein hunain yn unig wrth benderfynu sut i weithredu.
<input type="radio"/>	8b) Mae'n rhaid i ni wrando ar ddoethineb ein henuriaid a gweithredu bob amser yn ôl yr hyn y maen nhw'n ei ddweud wrthym ni.
<input type="radio"/>	8c) Wrth benderfynu beth i'w wneud dylem ni ddefnyddio empathi a meddwl am ganlyniadau ein gweithredoedd ar eraill.

<input type="radio"/>	9a) Bodau dynol yn unig sy'n gyfrifol am wneud y byd yn lle gwell.
<input type="radio"/>	9b) Gall gweddïo helpu i wneud y byd yn well.
<input type="radio"/>	9c) Bydd popeth sydd o'i le yn y byd hwn yn cael ei wella yn y bywyd nesaf.

<input type="radio"/>	10a) Ni fyddwn ni byth yn datblygu byd gwell – rydym ni'n sicr o fethu.
<input type="radio"/>	10b) Gallwn ni wneud y byd yn lle gwell dim ond drwy weithio dros gydraddoldeb a hawliau dynol.
<input type="radio"/>	10c) Mae'r byd eisoes yn berffaith – y mae cystal ag y gall fod.

BETH YW DYNEIDDIAETH? - CWESTIYNAU AMLDDEWIS

Atebion

- 1) B
- 2) A
- 3) C
- 4) B
- 5) A
- 6) C
- 7) B
- 8) C
- 9) A
- 10) B